CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 MEHEFIN 2016

Presenol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng B Owen

Cynghorwyr
I C Thomas , W T Owen, A W Bohana, G Thomas ©, A Hopcyn, T Thomas, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**
E Lovgreen, H Roberts, C Williams, W R Owen , W L Davies, M Thomas, E R Hughes, K Williams, G Thomas (p)

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

15.6. – Diwrnod Gwobrwyo Coleg Meirion Dwyfor Glynllifon (diolch i W T Owen am fynychu)

19.6 - Cyngerdd Eglwys Santes Faer – Cor Meibion Caernarfon a Cor Lakewood o UDA

20.6 – croesawu ymwelwyr o'r Cruise ships – Diolch i Cyng I C Thomas am fynychu

Mi wnaeth y Maer dymuno gwellhad buan ar rhan y Cyngor i Cyng M Thomas, Cyng C Williams a Cyng E Hughes sydd wedi bod yn ysbyty yn diweddar

3. **Datgan Buddiant Personol**

B Owen – eitem eithriedig
W T Owen – eitem eithriedig a chynllunio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ebost gan amgueddfa RWF

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 7 Mehefin 2016

Penderfynwyd

Yn dilyn y cywiriadau isod i'r rhestr enwebiadau – derbyn y cofnodion

Hwb Caernarfon – Cyng C Williams

Her Gwynedd – Cyng W L Davies a'r clerc (a newid y dyddiad yn y top)

(7 o blaid , 1 ymatal)

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C16/0588/14/LL **Cytuno**

Newid defnydd llawr gwaelod i dy i uned wyliau a cadw'r uned breswyl ar y llawr cyntaf a'r ail lawr ynghyd a newidiadau i edrychiadau'r ty a chreu mannau parcio yn y cefn

61 Green Bank, Ffordd y Gogledd/ North Road, Caernarfon

*****

3. C16/0551/14/CR Addasu'r adeilad presennol o ddefnydd swyddfa i ddefnydd meithinfra blant ynghyd a newidiadau mewnol ac allanol/Conversion of existing building from an office use into a children's nursery together with internal and external alterations	**Cytuno – ond pryderu am ddiogelwch y plant pan yn cyrraedd yr adeilad oherwydd y briffordd yn y ffrynt - felly angen sicrwydd fydd y lle parcio sydd yng nghefn yr eiddo yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl yma**

Cae Llannor, Rhes Wellington, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn au talu (unfrydol)

8. **Dogfen Weithredol y Cyngor**

Clerc wedi chwynu lot fawr o hen wybodaeth allan ers printio

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a disgwyl i weld tro nesaf fydd y ddogfen gerbron os oes angen chwynnu fwy (7 o blaid ,)

9. **E-bost parthed Baw Cwn**

i) Peter Simpson
ii) Ymateb Grŵp Llygad Maesincla

Penderfynwyd

i) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)
ii) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

10. **E-bost gan yr Ŵyl Fwyd**

Penderfynwyd

Gan bod yr Ŵyl wedi bod yn cymaint o lwyddiant anfon llythyr i'r pwyllgor iw llongyfarch yn enwedig y Cadeirydd Nici Beech a'r Ysgrifenydd Eleri Lovgreen (7 o blaid , 1 ymatal)

11. **E-bost gan Utility Wise**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

12.Eitemau o'r cyfarfod cynt :

i) Rheolau Sefydlog
ii) Cod Ymddygiad

- ***Gwyrdd*** – cymryd sylw
- ***Melyn -*** diwygiadau
- Gan ychwanegu newid i cod gwisg

Penderfynwyd

Derbyn yr awgrymiadau a creu copi ffurfiol parchus i bob cynghorydd (unfrydol)

13. **Rhybudd o Gynnig gan Cyng. Cemlyn Williams**

Par: Orchid Fashion

Penderfynwyd

Gan nad oedd Cyng C Williams yn bresennol dileu tan y cyfarfod nesaf (unfrydol)

14. **Cyngor Gwynedd - Holiadur**

Cwestiynau Glendid Stryd

Penderfynwyd

Cytunnwyd ar y datganiadau ond danfon sylwadau ynghyd parthed penodi corff allannol gan ystyried bod hwn yn ffordd hawdd i Cyngor Gwynedd neud arian (unfrydol)

15. **Cwestiynau**

Pa mor aml fydd y planters yn cael ei dyfrio ?
3 gwaith

Eitem Eithriedig :

16. **Tendrau**

Par: Glanhawr
Gan bod Y Maer yn datgan diddordeb enwebwyd i'r Dirprwy Faer cadeirio'r eitem yma

Eglurodd Cyng I C Thomas gefndir y sefyllfa gan egluro'r dogfennau oedd gerbron ar ffaith bod dau opsiwn posib

1. Edrych ar y cais neu
2. Ail hysbysebu

Eglurodd y clerc - yn dechnegol toedd yr ail ymgeisydd heb dynnu ei enw yn ôl . Roedd y clerc wedi siarad efo nifer o bobl am farn cyfreithiol ar y mater , oedd i gyd yn nodi bod y Cyngor yn iawn i barhau a gwneud penderfyniad ond mi wnaeth un holi pam bod cyn lleieid wedi ymgeisio . Barn personol y clerc oedd oherwydd y cymal gofalwr wrth gefn gan bod nifer fawr iawn o'r cwmnïau glanhau (yn unig) yn bodoli felly awgrymodd y clerc bod 3 opsiwn yw ystryied

1. Edrych ar y ceisiadau
2. Ail hysbysebu
3. Edrych ar y swydd digrifiad cyn ail hysbysebu

Yn dilyn trafodaeth

Penderfynwyd

i)Ethol yr ymgeisydd cyntaf Mr Williams
ii) am gyfnod o 2 blynedd
(unfrydol)

17. **Eitem brys – ebost Amgueddfa RWF**

Nododd y clerc bod yr amgueddfa yn gofyn am cytundeb mewn egwyddor iddynt arddangos " goleuadau poppies" ar wal y Castell

Penderfynwyd

Cefnogi mewn egwyddor (unfrydol)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.25

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....